Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Andrew Jarrett
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Iechyd a Thai
Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig,
Castell-nedd,
SA11 3QZ

Dyddiad: 18/12/2025

Annwyl Mr Jarrett,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae'r llythyr hwn yn nodi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 2 a 4 Rhagfyr 2025. Diben yr archwiliad oedd adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wrth arfer eu dyletswyddau a'u swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1. Cyflwyniad

1.1 Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, llinellau ymholi allweddol a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r egwyddorion hyn, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth; Atal; Llesiant; a Phartneriaethau.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

Pobl – llais a rheolaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle y bo'n ddiogel ac er budd pennaf y plentyn, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i barhau yn eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddulliau amserol ac ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau?

Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gwaith da yn cael ei wneud i ddadansoddi risg, bod cynlluniau amddiffyn yn cael eu rhoi ar waith, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn ôl yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed?

Partneriaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod dulliau amlasiantaethol ar waith i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd pobl yn camfanteisio arnynt neu sy'n profi achosion o gamfanteisio, i ymgysylltu â nhw ac i'w diogelu, a bod pob asiantaeth mewn sefyllfa i reoli risgiau cyd-destunol a deall rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio?

2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

3. Crynodeb o Archwiliad Sicrwydd

3.1 Cynhelir yr archwiliad sicrwydd hwn ar adeg lle mae gwasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot yn rhoi strwythur gwasanaeth yn seiliedig ar ardaloedd ar waith. Nod hyn yw symleiddio llwybrau, atgyfnerthu'r drws ffrynt, a chynnal model ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau wrth i'r galw a'r pwysau ariannol gynyddu. Er gwaethaf rhywfaint o ansicrwydd o ran y gwaith ailstrwythuro, mae ymarferwyr yn gadarnhaol iawn am weithio i'r awdurdod lleol a'i ddull arwain. Mae uwch-arweinwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r rhaglen newid, yn gosod disgwyliadau clir i sicrhau ymarfer cyson, ac yn ymateb i faterion a godir gan ymarferwyr mewn ffordd fesuredig sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau.

3.2 Mae'r archwiliad sicrwydd hwn hefyd yn cael ei gynnal naw mis ar ôl i'r system cofnodi achosion Mosaic gael ei chyflwyno. Dywedodd rhai ymarferwyr wrthym fod heriau o ran defnyddioldeb a llif gwaith cynnar yn gysylltiedig â system Mosaic o hyd. Mae uwch-arweinwyr yn rhoi'r system ar waith mewn ffordd ymarferol a graddol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cyfunol, hyrwyddwyr TG o fewn timau, a sianeli adborth byw er mwyn i staff allu rhannu problemau a gwelliannau. Mae arweinwyr yn gwneud addasiadau parhaus yn seiliedig ar yr adborth hwn ac maent yn bwriadu rhoi dangosfyrddau perfformiad ar waith i ddangos arferion a pherfformiad yn well.

3.3 Mae arweinwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, yn dangos gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd i oruchwylio ymarfer a chefnogi dulliau dysgu a gwella. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio i sicrhau diwylliant cydberthynol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma, sy'n gwerthfawrogi barn broffesiynol a phrofiad bywyd.

3.4 Mae tîm y drws ffrynt yn sgrinio cysylltiadau o fewn 24 awr ac yn cyfeirio teuluoedd at help cynnar priodol, gan fanteisio ar gyfraniadau gan weithwyr cymdeithasol ymgynghorol a'r heddlu i helpu i wneud penderfyniadau cyson ac atal achosion rhag gwaethygu.

3.5 Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd a'u cymunedau lle y bo'n ddiogel iddynt wneud hynny ac er eu lles pennaf. Mae ymarferwyr yn darparu cymorth amserol sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn datblygu Cynlluniau Gofal a Chymorth sy'n cyd-fynd ag anghenion pob plentyn. Mae paneli yn cynnal adolygiadau rheolaidd ac yn addasu'r help sydd ar gael, gan sicrhau bod y cymorth yn ymatebol ac yn effeithiol.

3.6 Mae gweithgarwch dadansoddi risg a diogelu yn amserol, a rhoddir trothwyon a rennir ar waith. Gwneir ymholiadau adran 47 yn ddi-oed, a llunnir cynlluniau

amddiffyn sy'n cynnwys camau gweithredu clir, perchnogaeth ac amserlenni. Caiff prosesau goruchwylio annibynnol eu cynnal, a chaiff achosion eu huwchgyfeirio lle na cheir digon o gynnydd.

3.7 Mae trefniadau amlasiantaethol yn nodi pobl ifanc y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt, yn ymgysylltu â nhw ac yn eu diogelu. Mae llwybrau diogelu cyd-destunol yn cyd-ystyried graddau'r tarfu a chymorth, ac mae fforymau rheolaidd yn rhannu gwybodaeth am rwydweithiau a lleoliadau, er mwyn sicrhau bod ymatebion yn parhau'n gydgysylltiedig ac yn gymesur â lefel y risg.

3.8 Mae'r broses ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws addysg, iechyd, yr heddlu a darparwyr a gomisiynwyd yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol, ac mae prosesau cynllunio ar y cyd a fforymau cyson sy'n cydlynu adnoddau, yn lleihau nifer yr achosion a gaiff eu huwchgyfeirio ac yn cefnogi canlyniadau parhaus ar waith.

3.9 Mae'r themâu gwella a nodwyd yn cynnwys yr angen i nodi'r cynnig o eiriolaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig hwnnw yn fwy amlwg yn y cofnodion, a rhoi trothwyon y Tîm Anableddau Plant ar waith yn fwy cyson. Mae angen i'r gwasanaeth gofnodi penderfyniadau diogelu gan ddefnyddio rhesymeg glir a dealladwy, a sicrhau bod cysylltiad clir rhwng penderfyniadau a'r camau gweithredu dilynol.

4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl – llais a rheolaeth – gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

<u>Cryfderau</u>

4.1 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi plant, teuluoedd a gofalwyr wrth wraidd ei waith. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar gryfderau, maent bob amser yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, ac yn rhoi arferion cydberthynol sy'n ystyriol o drawma ar waith. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u cefnogi. Mae'r diwylliant yn meithrin ymddiriedaeth, dulliau dysgu ac annibyniaeth broffesiynol. Mae'r timau yn dangos gwerthoedd a rennir fel

rhan o'u hymarfer o ddydd i ddydd ac mewn cydberthnasau ar draws gwasanaethau a gyda phartneriaid. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.2 Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cynnal amgylchedd cadarnhaol ac agored lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed ac yr ymddiriedir ynddynt. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod ar gael bob amser drwy gynnal ymweliadau rheolaidd â thimau a thrwy roi dull drws agored ar waith. Mae ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio amserol ac mae'r rheolwyr yn eu cefnogi. Mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi mewn cyfleoedd datblygiad personol drwy hyfforddiant strwythuredig a chymorth gan weithwyr cymdeithasol ymgynghorol. Caiff sesiynau goruchwylio myfyriol eu cynnal yn rheolaidd sy'n llywio gwelliannau, drwy gyfuno prosesau goruchwylio achosion â chymorth personol a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio gyda chymheiriaid.

4.3 Dywedodd ymarferwyr a ymatebodd i arolwg AGC fod cyfleoedd dysgu hygyrch a gwerthfawr ar gael, gan adlewyrchu diwylliant cryf o ddysgu. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso yn cael sesiynau mentora strwythuredig, amser dysgu gwarchodedig, cyfleoedd cysgodi a hyfforddiant gan weithwyr cymdeithasol ymgynghorol, a thynnodd ymarferwyr sylw at yr A-Z of Practice Handbook.

4.4 Mae'r gweithlu yn sefydlog ac yn brofiadol, gydag amrywiaeth o arbenigedd ar draws rolau. Mae'r parhad hwn yn galluogi ymarfer o ansawdd uchel ac yn meithrin cydberthnasau parhaus, llawn ymddiriedaeth â phlant a theuluoedd. Mae sefydlogrwydd a sgiliau'r gweithlu yn ffactorau allweddol sy'n sail i'r canlyniadau cadarnhaol a'r diwylliant seiliedig ar gryfderau a oedd yn amlwg yn ystod yr archwiliad sicrwydd hwn.

4.5 Mae Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol yn rhan o bob un o'r timau a'r swyddogaethau, ac maent yn darparu hyfforddiant, sesiynau mentora a chyfleoedd ymgynghori ar ymarfer, ac yn arwain gwaith achosion cymhleth. Maent yn cynnal sesiynau ymarfer myfyriol yn rheolaidd, yn cefnogi gwaith seiliedig ar gryfderau mewn sesiynau goruchwylio a hyfforddiant, ac yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau drwy sicrhau ansawdd, cyfrannu at bolisïau, a chyflwyno cynigion wedi'u targedu. Er enghraifft, mae'r ymateb ‘Be Safe’ i achosion o gamfanteisio yn cysylltu â gwasanaethau ieuenctid a'r heddlu fel mater o drefn. Mae eu rôl amlwg mewn timau a fforymau partner yn cefnogi penderfyniadau cyson, camau gweithredu amserol, a'r gallu i roi fframweithiau cyfreithiol a pholisïau ar waith yn hyderus. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.6 Mae arweinwyr yn rhoi prosesau sicrhau ansawdd ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae rhaglen dreigl o archwiliadau, adolygiadau thematig a chyfleoedd dysgu myfyriol yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac yn llywio gwelliant parhaus. Mae cyfarfodydd diogelu ac adolygiadau dysgu amlasiantaethol wythnosol yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael ei llywio gan dystiolaeth. Mae Rheolwr y Tîm Ymchwil,

Datblygu ac Arloesedd (Arweinydd Sicrhau Ansawdd) yn goruchwylio'r gylchred sicrhau ansawdd. Fel rhan o'r rôl, mae'n cydlynu archwiliadau ac adolygiadau dysgu, yn sicrhau bod newidiadau yn deillio o waith ymchwil a phrofiad bywyd, ac yn monitro camau gweithredu hyd nes y byddant wedi'u cwblhau.

4.7 Mae'r timau o fewn gwasanaethau plant yn defnyddio model ymarfer seiliedig ar gryfderau. Maent yn canolbwyntio ar “yr hyn sy'n bwysig” ac yn datblygu asedau a rhwydweithiau pobl. Mae ymarferwyr yn gwrando ar blant, teuluoedd a gofalwyr. Maent yn sicrhau bod barn pobl yn llywio cynlluniau a phenderfyniadau. Mae sgyrsiau am “yr hyn sy'n bwysig” yn rhan graidd o'r broses asesu a chynllunio. Mae ymarferwyr yn cofnodi amgylchiadau personol, cryfderau, risgiau, rhwystrau a nodau mewn iaith syml.

4.8 Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ac arferion sy'n sensitif o safbwynt diwylliannol er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu. Mae ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael, ac mae gwasanaethau cyfieithu yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n siarad ieithoedd eraill, gan sicrhau cyfathrebu cynhwysol ac effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn cynnwys cofnod o ddewis iaith y person, ac roedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn amlwg.

4.9 Mae cyfleoedd clir ar gael i blant a phobl ifanc gymryd rhan a dylanwadu ar wasanaethau. Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yn annog prosesau cydgynhyrchu. Mae profiad bywyd yn llywio iaith a chanllawiau, gan gynnwys yr adnodd *“Language we use”* a gafodd ei gydgynhyrchu dan ddylanwad plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal; mae hyn yn disodli termau technegol â geiriau parchus sy'n addas i blant ac yn llywio diweddariadau i ddogfennau, templedi ac iaith cyfarfodydd. Mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau hygyrch sy'n addas i anghenion cyfathrebu gwahanol er mwyn sicrhau bod cyfraniadau plant yn llywio cynlluniau ac adolygiadau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.10 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi profiad bywyd wrth wraidd gwelliannau. Mae straeon Newid Mwyaf Sylweddol a Phaneli Straeon yn dod ag ymarferwyr, arweinwyr, aelodau etholedig a phartneriaid ynghyd i fyfyrio ar brofiadau bywyd go iawn. Maent yn cytuno ar themâu ac yn llunio camau gweithredu, er mwyn sicrhau bod adborth yn llywio ymarfer yn uniongyrchol, yn atgyfnerthu dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn ymgorffori dulliau cydgynhyrchu ar draws systemau a thimau.

<u>Meysydd i'w Gwella</u>

4.11 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaeth eirioli annibynnol i blant a phobl ifanc yn rheolaidd drwy'r gwasanaeth a gomisiynir, ac mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn pwysleisio'r cynnig yn ystod adolygiadau. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn dangos y cynnig o wasanaeth eirioli fel mater o drefn, a'r rhai sydd wedi ei dderbyn neu ei wrthod, gan nodi rhesymeg ym mhob cofnod perthnasol.**

4.12 Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn llunio cofnodion achos clir ac amserol sy'n canolbwyntio ar y bobl. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i sicrhau cysondeb fel bod llais y plentyn a rhesymeg syml dros benderfyniadau yn parhau'n weladwy yn yr holl nodiadau achos gofal cymdeithasol, cynlluniau, adolygiadau a chofnodion cyfarfodydd.**

Atal – Gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle y bo'n ddiogel ac er budd pennaf y plentyn, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i barhau yn eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddulliau amserol ac ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau?

<u>Cryfderau</u>

4.13 Mae blaenoriaethau atal wedi'u cynnwys fel rhan o gynlluniau comisiynu a chynlluniau gwasanaeth. Mae'r Strategaeth Comisiynu Lleoliadau a'r Cynllun Strategaeth Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2023-2026 yn pwysleisio ymyrraeth gynnar, ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac atgyfnerthu digonolrwydd lleol, gyda'r nod o sicrhau bod plant yn cael gofal gartref lle bynnag y bo'n ddiogel i wneud hynny a bod y ddibyniaeth ar opsiynau cost uwch yn cael ei lleihau.

4.14 Mae'r gwasanaeth yn darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth hygyrch a chymesur. Er gwaethaf cynnydd nodedig yn nifer y cysylltiadau a'r atgyfeiriadau a gyflwynir i'r Pwynt Cyswllt Unigol (SPoC), mae rheolwyr yn sgrinio pob cyswllt o fewn 24 awr, ac mae cyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol yn cysylltu pobl â help cynnar priodol. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol a phartneriaid heddlu wrth y drws ffrynt yn rhoi cyngor ymarferol ar unwaith, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n parhau'n gymesur ac yn gyson. Yn arolwg AGC, dywedodd 91% o'r ymatebwyr eu bod yn ei chael hi'n hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael cymorth. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.15 Mae help cynnar a dulliau ymyrryd yn gynnar ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant ac maent yn cael eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr, partneriaid a theuluoedd. Mae ymarfer seiliedig ar gydberthnasau ymarferwyr yn cefnogi'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo'n ddiogel. Mae gweithlu hyderus a medrus yn atal achosion rhag gwaethygu drwy ganolbwyntio ar “yr hyn sy'n bwysig”, gan gynnal adolygiadau rheolaidd a chyfuno cymorth ymarferol â phroses cynllunio diogelwch glir. Defnyddir y Tîm

o Amgylch y Teulu a phaneli help cynnar yn rheolaidd i gydlynu cymorth, ac mae ethos clir o weithio gyda theuluoedd, yn hytrach na gweithio ar deuluoedd. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym, "*Yr hyn sy'n wahanol am Gastell-nedd Port Talbot yw ei ddealltwriaeth o'r ffaith ein bod yn ymdrin â phobl – o ran y system mewn perthynas â phlant – ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio, yn hytrach na beio. Mae hyn yn galluogi ymddiriedaeth a diogelwch seicolegol. Rydym yn gweithio gyda risgiau, ac mae'n teimlo fel ein bod yn gwneud hyn fel tîm yn hytrach na fel endidau ar wahân."* **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.16 Mae ymyriadau help cynnar wedi'u targedu ar gael ac yn cael eu llunio er mwyn atal argyfyngau. Mae paneli a gaiff eu harwain gan drafodaethau yn gosod ffiniau clir ac yn cynyddu neu'n lleihau'r cymorth wrth i amgylchiadau newid. Mae ymarferwyr yn cyfuno help ymarferol â chynigion cyfranogiad lleol sy'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn cadw mewn cysylltiad â'u cymunedau, sy'n lleihau'r siawns y bydd risgiau yn gwaethygu.Ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth, mae'r cymorth yn aros yn sefydlog ac yn rheolaidd drwy fforwm cydgysylltiedig, sef y Panel Anghenion Cymhleth, sy'n ystyried addysg, iechyd a'r broses gomisiynu.

4.17 Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio cymorth teulu seiliedig ar gydsyniad er mwyn parhau i ymgysylltu â chynlluniau gwirfoddol. Mae ymarferwyr yn defnyddio Cynlluniau Gofal a Chymorth i reoli risg mewn ffordd gymesur, i gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle y bo'n ddiogel i wneud hynny, ac i adolygu ac addasu cymorth yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Mae ymarferwyr yn cyd-gynhyrchu cynlluniau â theuluoedd, yn pennu canlyniadau personol clir, ac yn eu haddasu wrth i risgiau gynyddu neu leihau. Mae timau yn dangos creadigrwydd yn eu dull o ddod o hyd i ddatrysiadau hyblyg sy'n lleihau unrhyw darfu ac effaith ar deuluoedd ond gan gynnal diogelwch hefyd.

4.18 Mae ymyriadau wedi'u targedu yn darparu cymorth ymarferol yn y cartref, rhaglenni rhianta, gwaith cydberthnasau iach, cyngor ar hawliau o ran lles a chwnsela cymunedol, ac mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu'r cynllun amlasiantaethol.. Pan nad yw'r anghenion yn cyd-fynd â llwybrau safonol, mae ymarferwyr yn rhoi cymorth wedi'i dargedu mewn ffordd greadigol. Yng nghyd-destun defnyddio sylweddau, mae'r tîm Niwed Cudd yn addasu cymorth sy'n gysylltiedig ag ailwaelu, yn cysylltu teuluoedd â thriniaethau ac yn cadw cysylltiad rheolaidd, er mwyn sicrhau y gall plant aros gartref yn ddiogel. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.19 Mae grwpiau a gaiff eu harwain gan bobl ifanc fel YOVO yn casglu barn mewn fformatau hygyrch ac yn defnyddio'r farn honno i ddylanwadu ar ymarfer, ac mae lleoedd cyson y gellir ymddiried ynddynt fel Grŵp HOPE yn cynnal ymgysylltiad. Mae rhieni yn llywio Caffis y Rhwydwaith Eirioli dros Rieni a gaiff ei arwain gan gymheiriaid fel menter gydweithredol, gan greu lleoedd diogel a chynhwysol i rannu profiadau, magu hyder a dylanwadu ar wasanaethau lleol. Drwy'r grwpiau hunangyfeiriedig hyn, mae rhieni yn cryfhau rhwydweithiau ac

yn llunio datrysiadau sy'n helpu teuluoedd i gadw at gynlluniau y maent wedi'u cyd-ddylunio. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.20 Mae'r tîm therapiwtig yn cynnal ymgyngoriadau ar achosion ac yn hwyluso rhaglenni grwpiau rhianta. Mae Arbenigwyr ar Ymddygiad yn y Tîm Anableddau Gofal Plant yn asesu ymddygiad ac yn llunio Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol ar y cyd â theuluoedd ac ysgolion. Maent yn cynnig hyfforddiant ar roi'r cynlluniau ar waith mewn lleoliadau ymarfer, yn adolygu canlyniadau a nodwyd ac yn mireinio cynlluniau er mwyn sicrhau bod ymatebion yn parhau'n gyson, yn gytbwys ac yn gydnaws ag anghenion y plentyn yn y cartref ac ym myd addysg.

4.21 Caiff Cynadleddau Grŵp Teulu eu comisiynu'n annibynnol a chânt eu defnyddio i sicrhau bod cymorth addas ar gael i'r plentyn ac i atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau'r teulu. Mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu â TGP Cymru i ddarparu gwasanaeth Cynadleddau Grŵp Teulu diduedd yn unol â'r safonau ansawdd cenedlaethol. Nid yw cydgysylltwyr yn weithwyr cymdeithasol sy'n ymdrin ag achosion, ac mae hyn yn amddiffyn niwtraliaeth ac yn meithrin ymddiriedaeth. Dywedodd partneriaid bod yr annibyniaeth hon yn gwella cyfranogiad, yn llunio cynlluniau clir y mae teuluoedd yn berchen arnynt ac yn cefnogi'r nod strategol, sef cadw plant yn ddiogel yn eu rhwydweithiau lle bynnag y bo'n bosibl. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

<u>Meysydd i'w Gwella</u>

4.22 Mae rhestrau aros cyfnodol a chyfyngiadau o ran capasiti yn gysylltiedig â rhai o'r gwasanaethau help cynnar ac atal arbenigol a ddarperir yn yr Adran Addysg, yn enwedig yn ystod cylchoedd comisiynu a'r adegau prysuraf. Nid oes unrhyw restrau aros ar gyfer gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol o fewn y Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i gydweithio â phob adran i sicrhau bod cymorth ar gael mewn modd amserol ac i leihau'r risg y bydd sefyllfaoedd yn gwaethygu.**

4.23 Mae rhai cofnodion gofal cymdeithasol yn anghyson o ran y defnydd o drothwyon a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Tîm Anableddau Plant, ac mae hyn yn arwain at amrywiaeth o ran mynediad a phrosesau trosglwyddo achosion. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y trothwyon a'r meini prawf presennol yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.**

Llesiant – Gwnaethom ofyn

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed*?*

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gwaith da yn cael ei wneud i ddadansoddi risg, bod cynlluniau amddiffyn yn cael eu rhoi ar waith, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn ôl yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed?

Cryfderau

4.24 Mae'r diwylliant diogelu yn gryf, yn weladwy ac wedi'i ymgorffori'n dda ar draws gwasanaethau plant. Mae arweinwyr yn cadw golwg ac yn gosod disgwyliadau cyson a chlir. Mae pobl yn ymddiried yn yr ymarferwyr a gaiff eu cefnogi i ddefnyddio ymatebion mesuredig ac ataliol a'r ymatebion lleiaf cyfyngol. Mae trefniadau amlasiantaethol, gan gynnwys y ffaith bod yr heddlu wedi'u cyd-leoli'n effeithiol wrth y drws ffrynt, yn sicrhau y gellir craffu ar risgiau'n rheolaidd, a dywedodd partneriaid fod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar blant, ei fod yn broffesiynol ac yn atebol.

4.25 Mae'r rhan fwyaf o'r Cynadleddau Amddiffyn Plant a'r Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cynnal mewn modd amserol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Caiff teuluoedd eu briffio ymlaen llaw, ac mae Cadeiryddion yn cytuno ar y ffordd y bydd plant yn cyflwyno eu barn, gan gadeirio cyfarfodydd mewn ffyrdd hygyrch. Mae cofnodion yn cael eu llunio mewn iaith syml, maent yn nodi penderfyniadau, camau gweithredu, ac amserlenni yn glir ac yn cael eu rhannu'n brydlon. Mae ymarferwyr yn defnyddio protocolau uwchgyfeirio pan nad yw'r cynnydd yn ddigonol, a chynhigir cyfleoedd hyblyg i blant gymryd rhan, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, i gadeirio rhannau o'u hadolygiadau ar ôl paratoi a gyda chymorth.

4.26 Mae ymarferwyr yn gweithredu'n brydlon pan fydd pryderon yn codi, yn cyfleu trafodaethau strategaeth mewn modd amserol i'r asiantaethau cywir, ac yn cychwyn ymholiadau adran 47 yn ddi-oed pan gaiff y trothwyon eu cyrraedd.

4.27 Mae ymarferwyr yn cyflawni neu'n rhagori ar y gofynion statudol o ran ymweliadau, ac yn cynnal ymweliadau'n amlach na'r lefel ofynnol. Mae ymarferwyr yn cofnodi ymweliadau arsylwi sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn defnyddio sgyrsiau am “yr hyn sy'n bwysig” i nodi profiadau bywyd, pryderon a'r hyn sy'n bwysig i bob plentyn. Mae'r dull seiliedig ar gryfderau hwn yn atgyfnerthu'r broses dadansoddi risg a chynllunio, ac mae'r ymweliadau a'r ymyriadau a roddir ar waith yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lawer o blant. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.28 Mae ymarferwyr yn rhoi trothwyon a rennir ar waith ac yn pennu camau gweithredu, perchnogaeth ac amserlenni clir yn y rhan fwyaf o gynlluniau ac yn addasu pa mor aml maent yn cysylltu â'r unigolion dan sylw wrth i'r risg newid. Mae dull cydberthynol sy'n seiliedig ar gryfderau'r awdurdod lleol yn amlwg. Mae ymarferwyr yn cynyddu nifer yr ymweliadau pan fydd pryderon yn codi, yn lleihau amlder ymweliadau pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny ac yn cyfuno

cymorth ymarferol â gwaith cynllunio diogelwch er mwyn helpu plant i aros gartref lle bo hynny er eu lles pennaf.

4.29 Mae datrysiadau a lunnir ar y cyd yn cefnogi canlyniadau diogelu cadarnhaol. Mae ymarferwyr yn gweithio ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr i gytuno ar nodau a llywio ymyriadau, ac mae gwaith uniongyrchol sy'n ystyriol o drawma yn cynnal arferion mwy diogel.

4.30 Mae Cadeiryddion Cynadleddau a Swyddogion Adolygu Annibynnol yn brofiadol ac wedi'u sefydlu'n gadarn yn eu rolau, sy'n sicrhau y caiff Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a Chynadleddau Amddiffyn Plant eu goruchwylio'n gyson. Maent yn sicrhau bod anghenion plant yn ganolog i'r broses, yn profi cynlluniau, yn monitro cynnydd ac yn defnyddio prosesau uwchgyfeirio lle na cheir digon o gynnydd. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd drwy archwiliadau o achosion a gweithdai ymarfer, ac yn cynnig cyngor arbenigol i ymarferwyr a rheolwyr sy'n atgyfnerthu cysondeb ac amseroldeb cynlluniau ac adolygiadau.

4.31 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi prosesau diogelu cyd-destunol ar waith ac yn eu monitro er mwyn mynd i'r afael â niwed y tu allan i'r teulu. Mae'r llwybr Risg a Niwed y Tu Allan i'r Cartref yn ychwanegu elfen o benderfyniad cyd-destunol i ymholiadau Adran 47, yn sbarduno cyfarfod a gaiff ei gadeirio'n annibynnol o fewn amserlenni a nodir ac yn gosod disgwyliadau o ran yr asiantaethau y mae'n ofynnol iddynt fynychu, adnoddau dadansoddi, gweithgarwch tarfu, amlder ymweliadau a chylchoedd adolygu. Mae hyn yn sicrhau bod ymatebion cyd-destunol yn gydnaws â phrosesau statudol ac yn egluro rolau ar gyfer ymarferwyr a phartneriaid. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.32 Mae'r Grŵp Diogelu Gweithredol Lleol yn goruchwylio tueddiadau, dangosfyrddau a ffrydiau gwaith yn barhaus. Mae archwiliadau ac adolygiadau dysgu yn profi ansawdd cyfarfodydd strategaeth, amseroldeb cynadleddau, dibynadwyedd y broses gofnodi a'r effaith ar ganlyniadau. Mae cofnodion gweithredu a hyfforddiant wedi'i dargedu yn troi canfyddiadau yn welliannau.

4.33 Nododd gweithwyr proffesiynol fod her agored ac atebolrwydd a rennir ar draws asiantaethau.

<u>Meysydd i'w Gwella</u>

4.34 Gwelsom anghysondebau o ran sut mae penderfyniadau diogelu yn cael eu dogfennu mewn rhai cofnodion gofal cymdeithasol. Nid yw rhesymeg na dilyniant penderfyniadau bob amser yn glir, ac nid oedd y camau o'r penderfyniad hyd at weithredu yn hawdd i'w dilyn mewn rhai cofnodion. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod hyn yn effeithio ar ddiogelwch na chanlyniadau. **Dylai'r awdurdod lleol gofnodi penderfyniadau diogelu yn gyson ym mhob**

cofnod gofal cymdeithasol, gan nodi rhesymeg glir a chysylltiad clir o'r penderfyniad at y camau gweithredu a gymerwyd.

4.35 Yn dilyn y broses ailstrwythuro ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno trefniadau newydd y bwriedir iddynt gynnal annibyniaeth gwasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol, gan gynnwys rhoi llwybr uwchgyfeirio clir ar waith i Wneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth, sicrhau bod prif swyddog arall ar gael pan fo angen, a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu annibyniaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol.**

<u>Partneriaeth</u> – Gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod dulliau amlasiantaethol ar waith i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd pobl yn camfanteisio arnynt neu sy'n profi achosion o gamfanteisio, i ymgysylltu â nhw ac i'w diogelu, a bod pob asiantaeth mewn sefyllfa i reoli risgiau cyd-destunol a deall rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio?

<u>Cryfderau</u>

4.36 Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder amlwg. Mae'r awdurdod lleol a phartneriaid yn cydlynu cymorth fel bod plant a theuluoedd yn cael help parhaus mewn modd amserol. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn brydlon, yn cynllunio ar y cyd ac yn gweithredu gyda'i gilydd i leihau risgiau ac atal achosion rhag gwaethygu.

4.37 Mae asiantaethau yn cyfarfod yn rheolaidd mewn fforymau traws-wasanaeth ac yn trafod adnoddau, trosglwyddiadau, anghenion cymhleth a chomisiynu. Mae'r strwythurau hyn yn cysoni cynlluniau, rolau ac amserlenni, a dywedodd partneriaid bod prosesau goruchwylio tryloyw ar waith sy'n sicrhau bod anghenion plant yn parhau'n ystyriaeth ganolog. Mae cydweithwyr ym maes addysg, yr heddlu, y trydydd sector ac iechyd yn cyfrannu at waith cynllunio, ac mae hyfforddiant a sesiynau clinig a rennir yn helpu ysgolion a gwasanaethau cymunedol i roi dulliau cyson ar waith fel rhan o'u hymarfer o ddydd i ddydd. Mae Cynllun Pennaeth y Gwasanaeth yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer cydweithio ac atal, a defnyddir camau gweithredu a mesurau i olrhain cynnydd â phartneriaid. Dywedodd un partner wrthym, "*Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Chastell-nedd ers sawl blwyddyn, a gallaf ddweud yn hyderus mai dyma un o'r awdurdodau lleol mwyaf effeithiol i mi weithio ag ef. Mae'r tîm yn dangos gofal*

a phroffesiynoldeb gwirioneddol bob amser ac yn cyfathrebu'n rheolaidd." **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.38 Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu a gwasanaethau help cynnar a chymorth ataliol yn dod â gofal cymdeithasol, addysg, iechyd, a'r trydydd sector ynghyd i gydlynu help ymarferol, osgoi dyblygu gwaith ac addasu cymorth wrth i anghenion newid. Mae cysylltiadau dyddiol â Dechrau'n Deg, gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, eiriolaeth, tai a gwasanaethau ieuenctid, a darparwyr a gomisiynwyd yn cynnig rhwydwaith unigol i deuluoedd â chysylltiadau clir a chamau gweithredu prydlon. Lle ceir anghenion mwy cymhleth, mae panel amlasiantaethol misol sy'n cynnwys aelodau o'r maes addysg ac iechyd yn sicrhau bod cynlluniau yn gyson ac yn canolbwyntio ar leoliadau a sefydlogrwydd yn yr ysgol.

4.39 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi dull system gyfan ar waith wrth ymdrin ag achosion o gamfanteisio a risgiau y tu allan i'r cartref, gan gysylltu prosesau atal, nodi materion yn gynnar, ymgysylltu, tarfu, diogelu ac adfer ar draws gwasanaethau addysg, iechyd, yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau a gomisiynwyd ac ysgolion. Mae'r dull yn ystyried risgiau o fewn grwpiau cyfoedion, mannau cyhoeddus, amgylcheddau ar-lein a phwyntiau trosglwyddo allweddol. Mae'n cymhwyso trothwyon a rennir ac adnoddau gwneud penderfyniadau cyffredin ac yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn gyflym. Mae'r broses cyflawni gweithredol yn gweithio'n dda drwy drefniadau diogelu cyd-destunol, gan gynnwys y llwybr Risg a Niwed y Tu Allan i'r Cartref, a fforymau amlasiantaethol rheolaidd sy'n cadw golwg ar batrymau, lleoliadau a rhwydweithiau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.40 Mae partneriaid yn defnyddio fforymau rheolaidd ac ad hoc i rannu gwybodaeth, mapio grwpiau cymheiriaid a lleoliadau, a chydlynu prosesau ymgysylltu â phobl ifanc y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Mae ymarferwyr yn mynd ati i gysylltu â phobl ifanc yn rheolaidd, yn paru gweithwyr gan ystyried diddordebau pobl ifanc ac yn defnyddio gweithgareddau sy'n meithrin ymddiriedaeth, fel ysgol goedwig a rhaglenni seiliedig ar gerddoriaeth. Mae gweithwyr ieuenctid sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion uwchradd yn oedolion y gellir ymddiried ynddynt sy'n cynnig cymorth ac yn gweithredu fel pont at wasanaethau eraill, gan alluogi i achosion gael eu nodi'n gynnar a pharhau i ymgysylltu â'r unigolion dan sylw.

4.41 Mae partneriaid yn creu darlun a rennir o risgiau cyd-destunol gan driongli gwybodaeth drwy ddiweddariadau diogelu rhwng ysgolion a staff iechyd, cyflwyniadau gwybodaeth a chanfyddiadau allgymorth lleol, ac yna gydlynu gweithgarwch tarfu a chymorth. Mae camau gweithredu ar y cyd yn cynnwys allgymorth wedi'i dargedu, cynlluniau plismona sy'n seiliedig ar broblemau a chamau rheoli tenantiaeth a chynlluniau gwaith cymdeithasol ar gyfer yr un grwpiau cymheiriaid, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch tarfu a chynlluniau

cymorth yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson ac yn lleihau niwed. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.42 Mae hyfforddiant amlasiantaethol yn atgyfnerthu dealltwriaeth o gamfanteisio a'r rhyng-gydberthnasau cysylltiedig ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn barod i reoli risgiau cyd-destunol. Mae darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio yn cynnwys clinigau ymgynghori i ymarferwyr, modelau hyfforddi'r hyfforddwr, adnoddau cwricwlwm i ysgolion a chymorth yn yr ysgol i roi'r gwersi a ddysgir ar waith yn ymarferol o ddydd i ddydd.

4.43 Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu mewn ffordd strwythuredig ac ymarferol mewn perthynas â chydgynhyrchu. Mae grwpiau sefydledig, y mae nifer ohonynt yn gweithredu dan eu harweiniad eu hunain gyda lefel isel o gymorth gan y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi, yn sicrhau bod profiad bywyd yn llywio gweithgareddau, adnoddau a chanllawiau. Caiff llais rhieni ei gynrychioli drwy'r rhwydwaith PAN a fforymau tebyg, ac mae rhaglenni help cynnar fel Reflect yn dylunio cynlluniau ar y cyd â rhieni yn ystod y camau cynharaf posibl. Ar lefel strategol, mae'r gwasanaeth yn casglu straeon Newid Mwyaf Sylweddol yn rheolaidd, ac mae uwch-aelodau o staff yn goruchwylio'r broses drwy gyfarfodydd panel rheolaidd. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn dangos diwylliant cyson o weithio gyda phobl yn hytrach na gweithio ar bobl, ac yn cynrychioli **ymarfer cadarnhaol** wrth roi prosesau cydgynhyrchu ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant.

4.44 Mae meysydd o **ymarfer cadarnhaol** yn amlwg mewn amrywiaeth o fentrau creadigol a gaiff eu harwain gan blant. Mae plant a phobl ifanc wedi dylunio gêm Nadroedd ac Ysgolion i rannu eu taith drwy'r system gofal, gan helpu eraill i ddeall eu profiadau mewn ffordd hygyrch. Maent hefyd wedi creu ‘bagiau ar gyfer y noson gyntaf’ i blant sy'n cael eu derbyn i ofal maeth, sy'n cynnig canllawiau ymarferol a rhoddion bach i'w helpu i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi. Mae plant a staff wedi cydgynhyrchu *Children’s Rights Promises*, sy'n nodi'r cymorth a'r parch y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl. Drwy weithdai a phrosiectau creadigol, mae plant a phobl ifanc wedi herio jargon proffesiynol ac wedi adolygu dogfennau ac enwau timau, a arweiniodd at greu'r fenter “*Language We Use*”.

5 Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

6 Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 24 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 20 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a chyfarfodydd, â 10 o blant a phobl ifanc ac 11 o rieni a/neu ofalwyr maeth.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 54 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys Pennaeth Gwasanaeth, Prif Swyddogion, Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol).
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy grwpiau ffocws, â 12 o gynrychiolwyr sefydliadau partner (gan gynnwys yr heddlu, iechyd, sefydliadau'r trydydd sector ac addysg).
- Gwnaethom arsylwi ar y panel anghenion cymhleth ac adnoddau.
- Gwnaethom fynychu un o sesiynau grŵp HOPE ac aethom i'r caffi PAN.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 31 o bobl (plant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr), 28 o gynrychiolwyr asiantaethau partner ac 81 o ymarferwyr a oedd yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

7 Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

8 Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.
Dylai	Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n

	golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Atodiad 2

Tabl Diffinio Meintiau

Terminoleg	**Diffiniad**
Bron pob un	Heb fawr ddim eithriadau
Rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	Dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	Yn agos at 50%
Lleiafrif	Llai na 40%
Nifer bach	Llai nag 20%
Nifer bach iawn	Llai na 10%